

# Amserlen ar gyfer ystyried: Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Tachwedd 2023

Ar 20 Tachwedd 2023, cyflwynwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) yn y Senedd.

Ar 24 Hydref 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 14 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 15 Mawrth 2024.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 7 Mehefin 2024, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

